

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gwasanaethau Ariannol

Cynllun Pensiwn Aelodau  
Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru

Canllawiau i'r Aelodau

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales





Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cynllun Pensiwn Enillion Gyrfa Cyfartalog Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cynnwys

---

Cyflwyniad .....	3
Eich Buddion Cyflog Terfynol.....	6
Sut y mae'r Cynllun CARE yn gweithio .....	8
Cyfraniadau.....	10
Gadael y Cynllun .....	12
Budd-daliadau ymddeol .....	13
Ymddeol oherwydd salwch .....	16
Diogelu Data .....	25
Pensiwn y Wladwriaeth .....	26
Datgelu gwybodaeth ac anghydfodau .....	27
Sut i gael rhagor o wybodaeth .....	28

# Cyflwyniad

---

**Canllawiau i Aelodau a ymunodd â'r Cynulliad cyn 6 Mai 2016 a oedd o dan 55 oed ar 1 Ebrill 2012 yw'r rhain.**

Mae canllawiau gwahanol i Aelodau a ymunodd â'r Cynulliad cyn 6 Mai 2016 a'u bod dros 55 oed ar 1 Ebrill 2012, ac i'r rhai a ymunodd â'r Cynulliad ar neu ar ôl 6 Mai 2016.

Daeth Cynllun Pensiwn Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog newydd (CARE) y Cynulliad i rym ar 6 Mai 2016.

Mae Cynllun Pensiwn newydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun") yn Gynllun Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog (CARE) a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016.

Math o gynllun pensiwn budd-daliadau diffiniedig yw hwn. Mae eich pensiwn yn seiliedig ar eich enillion tra byddwch yn aelod, a hyd yr amser y byddwch yn aelod o Cynllun CARE.

Caiff y Cynllun ei reoli gan Fwrdd Pensiynau a elwir yn Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau

gynrychiolydd a enwebir gan Aelodau Cynulliad presennol a blaenorol, dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwr Annibynnol i fod yn Gadeirydd. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn a bydd yr aelodau yn cael cylchlythyr rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith y Bwrdd.

Mae budd-daliadau sy'n daladwy i aelodau o dan reolau'r Cynllun yn cael eu talu o'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau a Chomisiwn y Cynulliad a'r enillion sy'n deillio o fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r Gronfa Bensiwn, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, yn cael ei chynnal yn gwbl ar wahân i asedau'r Cynulliad, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn gofalu am y Gronfa ar ran y buddiolwyr.

Bob tair blynedd bydd Actiwari'r Llywodraeth yn asesu sefyllfa ariannol y Gronfa. Mae'r drefn hon yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i asesu iechyd ariannol y Cynllun.

## Y print mân

---

Canllawiau yw'r rhain i'r amrywiaeth werthfawr o fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt fel aelod o'r Cynllun; nid yw'n cynnwys pob agwedd ar y Cynllun.

Ceir manylion llawn y Cynllun yn Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd ar gael ar wefan **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y llyfryn hwn a'r rheolau, y rheolau a fydd yn trechu.

## Diogelir eich buddion cyflog terfynol yn llawn:

---

Pan ddaw'r Cynllun newydd i rym ar 6 Mai 2016, bydd gennych ddwy ran i'ch pensiwn:

- Eich pensiwn cyn mis Mai 2016 sy'n Bensiwn Cyflog Terfynol a gaiff ei gyfrif yn seiliedig ar eich gwasanaeth yn y Cynllun hyd at 5 Mai 2016; a
- Eich pensiwn ar ôl 6 Mai 2016, sef pensiwn CARE a fydd yn seiliedig ar eich gwasanaeth yn y Cynllun ar 6 Mai 2016 neu ar ôl hynny.

Bydd yr elfen Cyflog Terfynol o'ch pensiwn yn cael ei hamddiffyn yn y ffyrdd canlynol:

- ❖ Bydd eich pensiwn Cyflog Terfynol yn parhau i gael ei gyfrifo ar sail eich cyflog terfynol ar yr achlysur cyntaf y byddwch yn gadael y Cynllun, felly bydd yn cynyddu yn unol â chodiadau cyflog yn y dyfodol.
- ❖ Pe baech yn marw tra byddech yn aelod gweithredol o'r Cynllun, byddai pensiwn eich priod/partner yn cael ei gyfrifo fel gwerth 5/8 o'ch pensiwn Cyflog Terfynol yn ogystal â hanner y pensiwn CARE a fyddai wedi cronni pe baech wedi aros yn y Cynllun tan Oed Ymddeol Arferol. Hefyd byddai pensiynau yn daladwy ar gyfer pob plentyn dibynnol.



- ❖ Bydd eich pensiwn Cyflog Terfynol yn daladwy heb ei ostwng o oedran 65 os byddwch yn gadael y Cynulliad ar yr oedran hwnnw, neu'n gynt.
- ❖ O dan y Cynllun newydd dim ond gwasanaeth hyd at 5 Mai 2016 fydd yn gymwys fel gwasanaeth ar gyfer y darpariaethau ymddeol yn gynnar "Rheol 80". Felly, gall Aelodau sydd â gwasanaeth o o leiaf 15 mlynedd ar 6 Mai 2016, sy'n dewis cael eu pensiwn wedi'i dalu'n gynnar, gael eu pensiwn Cyflog Terfynol wedi'i leihau yn seiliedig ar eu gwasanaeth cymwys hyd at 6 Mai 2016 a'u hoedran pan maent yn cymryd eu pensiwn.
- ❖ Bydd unrhyw ostyngiad ar gyfer taliad cynnar o elfen CARE y pensiwn yn seiliedig ar yr oed y cymerir y pensiwn ac Oed Ymddeol Arferol yr aelod.
- ❖ Ar gyfer pob Aelod arall, bydd y gostyngiad ar gyfer taliad cynnar yn berthnasol o ran y pensiwn Cyflog Terfynol a'r pensiwn CARE yn seiliedig ar ei oed pan fydd yn cymryd y pensiwn a'r Oed Ymddeol Arferol yn y ddau gynllun.

## Sut y mae'r Cynllun CARE yn gweithio

---

Bob blwyddyn byddwch yn cronni pensiwn sydd  $1/50$  o'ch cyflog ar gyfer y flwyddyn honno. Golyga hynny y bydd eich budd-daliadau'n seiliedig ar eich cyflog tra byddwch yn aelod o'r Cynllun.

Felly, os ydych yn ennill £64,000 y flwyddyn, y pensiwn yr ydych yn ei Gronni bob blwyddyn yw £1,280 y flwyddyn.

Os ydych yn ddeiliad swydd byddwch yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi, sef  $1/50$  o'r cyflog yr ydych yn ei ennill bob blwyddyn fel deiliad swydd.

Ni chaniateir trosglwyddo i'r cynllun o gynlluniau pensiwn eraill, ac nid oes modd prynu pensiwn ychwanegol neu flynyddoedd ychwanegol.

## Ailbriso

---

Bydd y pensiwn yr ydych yn ei Gronni bob blwyddyn yn cynyddu (a elwir yn ailbriso) ar gyfradd a benderfynir bob blwyddyn drwy orchymyn gan y Trysorlys. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cyfateb i'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

# Sut y mae'r Cynllun CARE yn gweithio

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae'r pensiwn yn cronni bob blwyddyn a sut y cymhwysir yr elfen ailbriso. Ar ddiwedd y tabl, dangosir cyfanswm y pensiwn y byddwch wedi'i gronni erbyn diwedd y pum mlynedd, gan gynnwys yr elfen ailbriso.

Blwyddyn	Cyflog	Pensiwn ar ddechrau'r flwyddyn	Pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn	Cynnydd y pensiwn	Pensiwn wedi'i ailbriso ar ddiwedd y flwyddyn
1	£64,000		£1,280	£38	£1,318
2	£64,000	£1,318	£1,280	£78	£2,676
3	£64,000	£2,676	£1,280	£119	£4,075
4	£64,000	£4,075	£1,280	£161	£5,516
5	£64,000	£5,516	£1,280	£204	£7,000
<b>Cyfanswm pensiwn CARE ar ddiwedd y pum mlynedd = £7,000</b>					

Mae'r enghraifft uchod yn rhagdybio ailbriso ar gyfradd o 3 y cant y flwyddyn a bod y cyflog sy'n daladwy bob blwyddyn yn £64,000 ac nad yw'n cynyddu dros y cyfnod a ddangosir.

Byddai swm gwirioneddol y pensiwn a oedd wedi cronni ar ddiwedd y cyfnod yn adlewyrchu'r cyflog gwirioneddol a enillwyd bob blwyddyn (gan gynnwys unrhyw gyflog deiliad swydd a allai fod yn daladwy) a chyfradd wirioneddol yr ailbriso a ddefnyddir bob blwyddyn.

Gallwch barhau i gronni eich pensiwn yn y modd hwn hyd nes y cyrhaeddwch 75 oed.

## Cyfraniadau

---

Caiff y gost o ddarparu'r budd-daliadau o'r Cynllun ei rhannu rhwng y Comisiwn ac aelodau'r Cynllun.

Fel aelod o'r Cynllun, mae'n ofynnol i chi dalu cyfraniad o'ch cyflog; mae'r Cynulliad yn gwneud cyfraniad "cyflogwr". Mae'r cyfraddau cyfrannu yn cael eu hadolygu o dro i dro, a hynny fel arfer ar ôl yr adolygiad y bydd Actiwari'r Llywodraeth yn ei wneud o'r Gronfa bob tair blynedd.

Ar hyn o bryd, mae'r aelodau yn cyfrannu 10.5 y cant o'u cyflog i'r Cynllun.

Ar hyn o bryd mae gostyngiad treth llawn ar y cyfraniadau i'r Cynllun, ar gyfradd eich treth incwm uchaf hyd at 75 mlwydd oed. Bydd y gostyngiad hwn ar eich treth yn cael ei gynnwys yn eich cyflog yn awtomatig.

Os ydych yn ddeiliad swydd byddwch yn talu cyfraniadau aelod ar eich cyflog fel Aelod Cynulliad a'ch cyflog fel deiliad swydd, fel yr ydych yn ei wneud yn awr.

# Enghraifft o gyfraniadau'r aelodau

---

*Mae cyflog aelod yn £64,000 y flwyddyn.*

Cyfraniadau i'r cynllun pensiwn ar 10.5 y cant = £6,720 (a)

Gostyngiad yn y dreth incwm (tybir 40c o bob punt) = £2,688 (b)

Cyfraniad net (gwir gost i chi) (a) - (b) = £4,032

# Gadael y Cynllun

---

Os byddwch yn gadael y Cynllun cyn ymddeol, mae dau opsiwn ar eich cyfer:

Opsiwn 1:

Gallwch adael y pensiwn rydych chi wedi'i gronni yn y Cynllun. Gelwir hwn yn bensiwn gohiriedig. Caiff ei gynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant (ar hyn o bryd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) hyd nes byddwch chi'n penderfynu dechrau'i gael.

Mae pensiwn gohiriedig yn daladwy heb ei ostwng o oedran ymddeol arferol y Cynllun ymlaen. Fodd bynnag, gellir ei dalu'n gynnar o 55 mlwydd oed ymlaen, ac yn yr achos hwnnw bydd yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar. Mae'n bosibl talu'ch pensiwn yn gynnar os ydych chi'n dioddef o salwch.

Pe byddech chi'n marw cyn cymryd y pensiwn, bydd y budd-daliadau a ddisgrifir ar dudalen 22 yn daladwy.

Opsiwn 2:

Gallech drosglwyddo gwerth eich pensiwn i gynllun pensiwn cymeradwy arall. Mae 'gwerth trosglwyddo' eich pensiwn mewn arian parod yn cael ei gyfrif gan ddefnyddio ffactorau a ddarperir gan actiwari'r Cynllun.

Mae'n bosibl y bydd gofyn i chi roi tystiolaeth eich bod wedi cymryd cyngor ariannol annibynnol cyn cymryd yr opsiwn hwn.

## Budd-daliadau ymddeol

---

Pan fyddwch yn ymddeol, cewch bensiwn blynyddol. Uchafswm y pensiwn sydd ar gael wedi ichi gyrraedd yr oedran ymddeol arferol yw dwy ran o dair o'r cyflog terfynol.

Yn dibynnu ar werth eich cynilion pensiwn, mae'n bosibl y bydd y Lwfans Gydol Oes yn effeithio arnoch pan fyddwch yn ymddeol. Terfyn y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ei roi ar werth y pensiwn a'r budd-daliadau cyfandaliad y gallwch eu cronni ar draws eich holl gynilion pensiwn cyn bod treth i'w dalu yw'r Lwfans Gydol Oes. Y terfyn yw £1 miliwn o fis Ebrill 2016 ymlaen. Mae hyn yn cyfateb i bensiwn blynyddol o £50,000 y flwyddyn o gynllun pensiwn budd-daliadau diffiniedig. Bydd y Lwfans Gydol Oes yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2018-19 ymlaen.

Cewch wybod a yw hyn yn gymwys yn eich achos chi pan fyddwch ar fin ymddeol, ond nodwch y bydd hefyd yn

dibynnu ar unrhyw fudd-daliadau pensiwn eraill yr oeddech wedi'u cronni cyn ymuno â'r Cynllun.

## Cymudo am gyfandaliad

---

Ar hyn o bryd, cewch ddewis cyfnewid rhan o'r pensiwn am gyfandaliad di-dreth a chael llai o bensiwn. I arfer yr opsiwn hwn, rhaid i chi hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig cyn i chi gael y rhandaliad cyntaf o'ch pensiwn.

Mae uchafswm y cyfandaliad y ganiateir tua 25 y cant o werth eich pensiwn blynyddol wedi'i gyfalafu. Mae Cyllid a Thollau EM yn cyfyngu ar swm yr arian di-dreth y ceir ei gymryd.

Cewch wybodaeth fanwl pan fyddwch yn ymddeol, ond os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Pensiynau.



## Oedran ymddeol arferol

---

Bydd yr oed ymddeol arferol, hynny yw, yr oed y gallwch gymryd eich holl bensiwn, heb ostyngiad ar gyfer taliad cynnar, yn gysylltiedig ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 mlwydd oed, pa un bynnag sydd uchaf), a bydd yn cynyddu os bydd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu.

## Ymddeol yn gynnar

---

Cewch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr i gael eich pensiwn yn gynnar ar yr amod:

- eich bod wedi cyrraedd isafswm yr oed pensiwn arferol, sef 55 oed ar hyn o bryd;
- nad ydych bellach yn Aelod Cynulliad.

Os byddwch yn cymryd eich pensiwn yn gynnar, bydd wedi'i ostwng ar gyfer taliad cynnar, oherwydd bydd yn cael ei dalu i chi am gyfnod hwy.

Bydd swm y gostyngiad yn dibynnu ar yr oedran y byddwch yn cymryd eich pensiwn a'ch oedran ymddeol arferol. Y cynharaf y byddwch yn cymryd eich pensiwn, y mwyaf y bydd yn gostwng oherwydd y taliad cynnar.

## Ymddeol oherwydd salwch

---

Er mwyn cael budd-daliadau ymddeol oherwydd salwch, byddai'n rhaid i chi fedru profi i'r Ymddiriedolwyr eich bod wedi'ch rhwystro rhag ymgymryd â'ch dyletswyddau'n ddigonol fel Aelod Cynulliad, oherwydd salwch. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn hynny, yn dilyn cyngor meddygol, byddech yn cael pensiwn ar unwaith yn seiliedig ar bensiwn haen 1 neu haen 2 oherwydd salwch.

Mae pensiwn haen 1 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos nad yw unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd â gwaith cyflogedig arall ond na all ymgymryd â'i ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad yn ddigonol. Y pensiwn salwch haen 1 sy'n daladwy yw'r pensiwn y byddwch wedi'i gronni pan fyddwch yn ymddeol heb unrhyw ostyngiad oherwydd taliad cynnar.

Mae pensiwn haen 2 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos bod unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd â gwaith cyflogedig arall ac na all o hynny ymlaen ymgymryd â'i ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad yn ddigonol. Y pensiwn salwch haen 2 sy'n daladwy yw'r pensiwn y byddwch wedi'i gronni pan fyddwch yn ymddeol gyda thaliadau chwyddo, fel petaech wedi bod

yn aelod gweithredol o'r Cynllun tan yr oedran ymddeol arferol (yn ddarostyngedig i'r terfyn o ddwy ran o dair).

Gall cyn aelod o'r cynllun, sydd â phensiwn gohiriedig, ac sy'n ymddeol o waith cyflogedig oherwydd salwch, wneud cais i'r Ymddiriedolwyr i'r pensiwn gohiriedig gael ei dalu ar unwaith ynghyd ag unrhyw gynnydd sydd wedi cronni. Ni fydd taliadau chwyddo ar gyfer pensiwn y cyn aelod, a bydd y pensiwn yn cael ei ostwng oherwydd taliad cynnar.

# Aelodau a fu farw yn y swydd

## Cyfundaliad arian parod

---

Pe byddech yn marw yn eich swydd cyn cyrraedd 75 oed a'ch bod yn aelod cyfranogol, caiff yr Ymddiriedolwyr dalu cyfundaliad i chi sydd ddwywaith gymaint â'ch cyflog (gan gynnwys eich cyflog deiliad swydd, pe byddech yn ddeiliad swydd ar adeg eich marwolaeth), neu ad-dalu eich cyfraniadau gyda llog os yw'n uwch, i'r buddiolwr neu'r buddiolwyr a enwebwyd gennych.

Cewch enwebu unigolyn, unigolion, sefydliad neu ymddiriedolaeth. Os nad oes enwebiad dilys, bydd y cyfundaliad marwolaeth yn cael ei gynnwys yn eich ystâd.

***Nodwch y bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymryd eich enwebiad i ystyriaeth, ond nad ydynt wedi***

***ymrwymo'n gyfreithiol iddo.*** Mae ffurflen enwebu yn eich pecyn croeso, neu mae modd ei lawrlwytho o **safle pensiynau'r Aelodau** ar y fewnrwyd, gallwch gael copïau gan y Tîm Pensiynau hefyd. Mae'n bwysig eich bod yn adolygu eich enwebiad yn rheolaidd, a'i ddiweddarau os bydd eich amgylchiadau personol yn newid.

## Pensiynau dibynyddion

---

Pe byddech yn marw yn y swydd fel aelod cyfranogol a phe byddai gennych briod, partner sifil neu bartner (boed o'r un rhyw neu o'r rhyw arall) sy'n dal yn fyw, byddai pensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi ar gael iddynt.

Ystyr "partner" yw person o'r naill ryw neu'r llall:

- a oedd yn cydfyw â chi ar ddyddiad eich marwolaeth ac a fu'n cydfyw â chi am o leiaf ddeuddeg mis cyn hynny;
- sydd wedi ei enwebu'n ysgrifenedig gennych chi o leiaf chwe mis cyn eich marwolaeth yn berson yr oeddech yn dymuno iddo gael pensiwn partner; ac
- a oedd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, naill ai'n ddibynnol arnoch chi'n ariannol neu'n rhyngddibynnol â chi am o leiaf ddeuddeg mis.

Mae ffurflen yn eich pecyn croeso er mwyn i chi enwebu'r person sydd i gael y budd-daliad hwn, neu gallwch ei lawrlwytho o dudalen **pensiynau'r Aelodau ar y fewnrwyd**.

Am y tri mis cyntaf ar ôl y farwolaeth, byddai cyfanswm y pensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi ac unrhyw bensiynau sy'n daladwy ar gyfer plant gyfwerth â chyflog yr Aelod Cynulliad. Ar ôl tri mis, byddai pensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi yn hanner eich pensiwn wedi'i chwyddo fel pe byddech wedi parhau'n aelod cyfranogol o'r Cynllun tan eich oedran ymddeol arferol (yn ddarostyngedig i'r terfyn o ddwy ran o dair).

Mae pensiynau ar gyfer plant hefyd yn daladwy er budd unrhyw blentyn perthnasol sy'n iau nag 17 oed neu'n iau na 23 oed ac mewn addysg amser llawn neu'n cael hyfforddiant amser llawn.

Byddai'r pensiwn ar gyfer y plentyn gyfwerth â:

- lle bo un plentyn perthnasol, chwarter eich pensiwn (wedi'i chwyddo fel y disgrifir uchod), neu
- lle bo mwy nag un plentyn perthnasol, tair rhan o wyth o'ch pensiwn (wedi'i chwyddo fel y disgrifir uchod).

Mae'n bosibl y caiff y pensiwn ar gyfer plant ei gynyddu os nad oes dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi.

Byddai pensiynau dibynnydd sy'n oedolyn a phensiynau plant hefyd yn daladwy mewn perthynas â'ch buddion Cyflog Terfynol fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 4 uchod.

## Marwolaeth ar ôl ymddeol

---

Yn yr amgylchiadau hyn, byddai cyfanswm y pensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi ac unrhyw bensiynau ar gyfer plant, am y tri mis cyntaf, yn cael eu talu ar yr un gyfradd â'r pensiwn a oedd yn cael ei dalu i chi yn union cyn eich marwolaeth. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr.

Dilynir hyn gan bensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi sydd gyfwerth â hanner eich pensiwn ar ddyddiad eich marwolaeth (yn seiliedig ar eich pensiwn llawn cyn unrhyw swm a gyfnewidiwyd gennych am gyfandaliad di-dreth a chan anwybyddu unrhyw ostyngiad oherwydd taliad cynnar).

Hefyd, pe byddech yn marw cyn pen pum mlynedd ar ôl cael yr hawl i gael pensiwn a chithau'n iau na 75 oed ar ddyddiad eich marwolaeth, bydd cyfanswm y pensiwn dibynnydd sy'n oedolyn sydd wedi goroesi ac unrhyw bensiynau plant a delir i chi, am weddill y cyfnod o bum

mlynedd, gyfwerth â'r pensiwn y byddech wedi'i gael pe byddech chi heb farw.

Mae'n bwysig eich bod yn adolygu'ch enwebiadau yn rheolaidd i sicrhau bod eich budd-daliadau'n cael eu talu cyn gynted ag y bo modd.

## Marwolaeth pan fydd y pensiwn wedi'i ohirio

---

Yn yr amgylchiadau hyn bydd eich priod/partner sifil/partner yn cael pensiwn sydd gyfwerth â hanner y pensiwn y byddai gennych hawl iddo pe byddai'n daladwy'n union cyn eich marwolaeth.

Byddai pensiynau dibynnydd sy'n oedolyn a phensiynau plant hefyd yn daladwy mewn perthynas â'ch buddion Cyflog Terfynol.

## Optio allan ar gyfer Aelodau'r Cynulliad / deiliaid swyddi

---

Cewch optio allan o'r Cynllun ar unrhyw adeg.

Fel aelod newydd/deiliad swydd mae gennych **dri mis** o ddyddiad eich ethol i'r Cynulliad i arfer yr opsiwn hwn,



os oes angen ad-dalu cyfraniadau. Bydd yr ad-daliad yn cael ei ôl ddyddio i ddyddiad yr etholiad. Rhaid ysgrifennu at yr Ymddiriedolwyr os dewisir optio allan.

Os penderfynwch adael y Cynllun ar unrhyw ddyddiad yn y dyfodol, bydd eich penderfyniad yn dod i rym ar ba ddyddiad bynnag y bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fydd y dyddiad ymarferol cynharaf ar ôl iddynt gael yr hysbysiad ysgrifenedig.

## Cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad / deiliaid swyddi ailymuno yn ddiweddarach

---

Os ydych yn Aelod Cynulliad sydd wedi optio allan o'r cynllun, cewch wneud cais i ailymuno ag ef os cewch eich ailethol yn dilyn etholiad. Rhaid hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig o'ch bwriad i ailymuno **cyn pen tri mis** i ddyddiad eich etholiad. Y dyddiad gweithredol ar gyfer ailymuno â'r cynllun fydd dyddiad yr etholiad.

# Gwybodaeth ychwanegol

## Y Lwfans Blynyddol

---

Y Lwfans Blynyddol yw'r swm mwyaf y gall eich pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb fod treth yn daladwy arno. Caiff swm y Lwfans Blynyddol ei bennu bob blwyddyn gan y Llywodraeth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na'r Lwfans Blynyddol, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi wneud taliad treth.

Mae Lwfans Blynyddol sy'n lleihau'n raddol wedi'i gyflwyno ar gyfer y rhai sydd ag 'incwm wedi'i addasu' o fwy na £150,000. O dan y drefn hon, bydd y Lwfans Blynyddol yn lleihau ar raddfa symudol i lefel mor isel â £10,000 ar gyfer y rhai sydd ag 'incwm wedi'i addasu' o dros £210,000. Mae'n bosibl y bydd y Lwfans Blynyddol newydd yn effeithio ar unrhyw un sydd ag incwm trethadwy o dros £110,000.

## Diogelu Data

---

Rhaid i'r Ymddiriedolwr gadw a phrosesu data sy'n ymwneud â chi at ddibenion cyfreithiol, personél, gweinyddol a rheoli. Gallai hyn gynnwys prosesu unrhyw ddata personol sensitif (fel y diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998) mewn perthynas â'ch aelodaeth chi o'r Cynllun, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, wybodaeth am eich iechyd corfforol, eich iechyd meddyliol neu eich cyflwr er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac ymrwymadau i drydydd partïon.

Fe allai'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i drydydd parti sy'n darparu cynhyrchion neu wasanaethau i'r Ymddiriedolwyr (er enghraifft cynghorwyr meddygol, cynghorwyr proffesiynol eraill a gweinyddwyr cyflogres), awdurdodau rheoleiddio, ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn gweinyddu'r Cynllun a sefydlu yswiriant priodol. Gallai hefyd gynnwys trosglwyddo gwybodaeth o'r fath i unrhyw drydydd parti y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo rhwymedigaethau'r Ymddiriedolwyr o ran y Cynllun. Cymerir camau priodol i ddiogelu eich data personol.

## Aseinio

---

Ni chaniateir ichi aseinio unrhyw rai o'ch budd-daliadau. Golyga hyn na allwch drosglwyddo eich hawl i fudd-daliadau o'r Cynllun i unrhyw un arall.

## Pensiwn y Wladwriaeth

---

Heblaw'r pensiwn a gewch o'r Cynllun, byddwch hefyd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Ers 6 Ebrill 2016, cyflwynwyd Pensiwn y Wladwriaeth newydd ar gyfer pobl sy'n cyrraedd Oed Pensiwn y Wladwriaeth ar y dyddiad hwn neu ar ei ôl. Os wnaethoch chi gyrraedd Oed Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth blaenorol.

Bydd y pensiwn a gewch o'r Wladwriaeth yn cael ei dalu yn ychwanegol at unrhyw bensiwn a gewch gan Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Mae rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am swm tebygol Pensiwn y Wladwriaeth yn [www.gov.uk/state-pension-statement](http://www.gov.uk/state-pension-statement).

## Datgelu gwybodaeth ac anghydfodau

---

Os oes gennych unrhyw bryderon am y ffordd y mae'r Cynllun yn cael ei weinyddu, dylech godi'r mater yn y lle cyntaf gyda'r Tîm Pensiynau a fydd yn cysylltu â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

Os oes gennych anghydfod sy'n ymwneud â'r Cynllun a chithau wedi methu â'i ddatrys yn anffurfiol, dylech ddilyn y weithdrefn fewnol ar gyfer datrys anghydfodau. Gallwch gael copi o'r weithdrefn gan y Tîm Pensiynau.

Os ydych wedi methu â datrys anghydfod o dan y weithdrefn fewnol ar gyfer datrys anghydfodau, efallai yr hoffech drafod y mater gyda'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i aelodau a buddiolwyr y Cynllun mewn cysylltiad ag unrhyw anawsterau na ellir eu datrys yn fewnol.

Cyfeiriad y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau yw 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB (Ffôn: 0300 123 1047).

Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, mae'n bosibl ei atgyfeirio at yr Ombwdsmon Pensiynau a all ymchwilio a phenderfynu ar unrhyw gŵyn ffeithiol neu fater o

gyfraith mewn perthynas â chynllun pensiwn galwedigaethol.

Cyfeiriad yr Ombwdsmon Pensiynau yw 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB (Ffôn: 020 7630 2200).

## Y Rheoleiddiwr Pensiynau

---

Gall y Rheoleiddiwr Pensiynau ymyrryd yn y modd y cynhelir cynlluniau pensiwn, lle bo ymddiriedolwyr, cyflogwyr neu gynghorwyr proffesiynol wedi methu yn eu dyletswyddau.

Gellir cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn:

Napier House, Trafalgar Place, Brighton BN1 4DW (0345 600 7060)

## Sut i gael rhagor o wybodaeth

---

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â ni:

Liz Calder, [Liz.Calder@cynulliad.cymru](mailto:Liz.Calder@cynulliad.cymru) 0300 200 6528

Donna Davies, [Donna.Davies@cynulliad.cymru](mailto:Donna.Davies@cynulliad.cymru) 0300 200 6523.

Mae rhagor o wybodaeth ar safle **pensiwn yr Aelodau ar y fewnrwyd** hefyd.